Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1
ECAD4020
2024-25

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 5:
# Mwy o ferfau (2)
7.11.2024

Peniarth .cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

n.evans@pcydds.ac.uk

# Allwedd:



Drilio



Ymarfer ar lafar (yn unigol)



Tasg wrando



Gwaith pâr



Grŵp o dri



Gwaith grŵp



Amser canu



Gwaith ar y byrddau gwyn



Tasg ysgrifennu



Tasg ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth i'r Portffolio

# Chwarae Chwap!



**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:**

1. Ar y sgrîn fawr, dangoswch y sleid nesaf.
2. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm.
3. Dewiswch un o bob tîm i ddod i'r blaen.
4. Rhowch 'wasgwr pryfaid' yr un iddynt.
5. Dwedwch y cwestiwn sydd ar dop y sleid.
6. Yr un cyntaf (o'r ddau) i wasgu'r gair fydd yn ennill pwynt i'w tîm.
7. Gallwch newid aelod o'r tîm neu barhau gyda'r un ddau tan ddiwedd y gêm.
8. Mwynhewch!

# Pa un ydy'r enw?

ysgrifennu

cadair

# Pa un ydy'r ansoddair?

disglair

gweld

# Pa un ydy'r berfenw?

eistedd

cer

# Pa un ydy'r berfenw?

bod

byddaf

# Pa un ydy'r ferf?

cerddais

mynd

# Mae hi'n amser adolygu



Taflwch ddau ddis ac yna ysgrifennwch frawddeg yn cynnwys y rhan ymadrodd.

| | | |
|---|---|---|
| 1.<br>enw | 2.<br>rhagenw | 3.<br>adferf |
| 4.<br>berfenw | 5.<br>enw torfol | 6.<br>arddodiad |
| 7.<br>cysylltair | 8.<br>ansoddair | 9.<br>enw priod |
| 10.<br>y fannod | 11.<br>enw haniaethol | 12.<br>berf |

# Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng berf a berfenw?

Chwarae

Chwaraeodd

↑ **Berfenw**

↑ **Berf**

# Pwy sy'n ei wneud?

Mae chwe 'pherson' gwahanol i'r ferf …

- person 1af unigol **FI**
- 2il berson unigol **TI**
- 3ydd person unigol **FE (EF)/ FO / HI / JOHN**

- person 1af lluosog **NI**
- 2il berson lluosog **CHI**
- 3ydd person lluosog **NHW**

Gyda berf gryno, mae'r terfyniad yn rhoi'r wybodaeth o bwy sy'n gwneud y weithred …, e.e. ais, aist, odd, a.y.y.b.

# Pryd mae'n cael ei wneud?

Mae'r <u>terfyniad</u> yn rhoi'r wybodaeth yma i ni hefyd.

Mae nifer o amseroedd gwahanol i'r ferf, yn cynnwys …

**<u>Y gorffennol</u>**
rhywbeth sydd wedi digwydd unwaith yn y gorffennol, mae'r weithred ar ben.

**<u>Y presennol</u>**
rhywbeth sy'n digwydd nawr, naill ai fel gweithred unigol neu rywbeth sy'n arfer digwydd ac yn dal i ddigwydd.

**<u>Y dyfodol</u>**
rhywbeth fydd yn digwydd yn y dyfodol h.y heb ddigwydd eto.

# Yr Amser Presennol



Rydw i (Dw i)
Rwyt ti
Mae e
Mae hi
Mae Ceri
Mae plant
Mae'r plant
Rydyn ni ('Dyn ni)
Rydych chi (Dych chi)
Maen nhw

# Yr amser presennol

Mae hi'n darllen.

Ble?

Mae hi'n darllen yn y llyfrgell.

Gyda phwy?

Mae hi'n darllen yn y llyfrgell gyda Miss Rhys.

Pryd?

Mae hi'n darllen yn y llyfrgell gyda Miss Rhys bob bore.



# Yr amser presennol



Maen nhw'n ...... .

Ble?

Gyda phwy?

Pryd?

Dyma Aled Afal. Mae Aled Afal yn wyrdd.

2






dyma alwen malwen.
Dyma lun arbennig.


Cyfres Cae Berllan
Cyfrinach y Bwgan Brain
Heather Amery a Stephen Cartwright

COLEG Y DRINDOD CAERFYRDDIN

Dyma fferm Cae Berllan.



Dyma Mari Morgan. Hi sy'n ffermio. Mae ganddi ddau o blant o'r enw Cadi a Jac. Gwalch ydi enw'r ci.

Mae Gwyn Morgan yn gweithio yn y sgubor.



"Beth wyt ti'n gwneud, Dad?" holodd Jac. "Rwy'n clymu gwellt wrth y polion yma," atebodd Gwyn Morgan.

"Beth ydi e?"



"Cewch weld cyn bo hir," meddai Dad. "Beth am i chi fynd i'r sied i nôl fy hen got. Dewch â fy het hefyd."

"Bwgan brain ydi e."



Mae Cadi a Jac yn dod â'r got a'r het. Wedyn maen nhw'n helpu Gwyn Morgan i wisgo'r bwgan brain.

# Yr Amser Presennol Negyddol



| | |
|---|---|
| Dydw i ddim | (Dw i ddim) |
| Dwyt ti ddim | |
| Dydy e ddim | |
| Dydy hi ddim | |
| Dydy Ceri ddim | |
| Dydy plant ddim | |
| Dydy'r plant ddim | |
| Dydyn ni ddim | ('Dyn ni ddim) |
| Dydych chi ddim | (Dych chi ddim) |
| Dydyn nhw ddim | ('Dyn nhw ddim) |

# Yr Amser Presennol Negyddol

Dydw i ddim yn hoffi nofio.

Ble?

Dydw i ddim yn hoffi nofio yn y môr.

Pam?

Dydw i ddim yn hoffi nofio yn y môr achos mae'n oer.

# Yn y dosbarth …



## Mae hi'n ….

# Yn y dosbarth …



## Dydyn ….

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David
Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales
www.athrofa.cymru

# Yn y dosbarth …



Maen nhw ....

Mae Dad ...

Mae Jac ...

Mae hi ...

Mae'r hwyaden ...

# Canllawiau Cwricwlwm i Gymru

| Cam Cynnydd 1 | Cam Cynnydd 2 | Cam Cynnydd 3 | Cam Cynnydd 4 | Cam Cynnydd 5 |
|---|---|---|---|---|
| Rwy'n dechrau deall y gellir ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu cyfrannu at ysgrifennu ar y cyd ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion. | Rwy'n gallu siarad er mwyn cynllunio ysgrifennu at wahanol ddibenion ac ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith ysgrifennu i ddilyn yn rhesymegol.<br><br>Rwy'n gallu ysgrifennu gan ddefnyddio geirfa sy'n gynyddol ddychmygus, amrywiol a manwl gywir. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig gyfarwydd a chywair priodol wrth gyfathrebu. | Rwy'n gallu dewis iaith idiomatig a chywair priodol wrth gyfathrebu er mwyn cyfoethogi fy mynegiant. | Rwy'n gallu defnyddio iaith idiomatig soffistigedig a chywair priodol mewn ystod o gyd-destunau. |
| Rwy'n dechrau cyfathrebu gan ddefnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo.<br><br>Rwy'n gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd ac arbrofi â geirfa rwyf newydd ei dysgu. | | | | |

# Fframweithiau Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd

## Llythrennedd: Ysgrifennu

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| neu eiriau yn eu dilyniant priodol. | | am eirfa, iaith idiomatig a chystrawen er mwyn mynegi fy hun yn rhugl ac yn eglur ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol ac at ddibenion gwahanol. |
| Rwy'n gallu adnabod natur trefn yr wyddor ysgrifennu a deall bod i symbolau ysgrifenedig ystyr. | | Rwy'n gallu defnyddio iaith briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys ffurfiau safonol, *e.e. enwau, rhagenwau, ansoddeiriau, adferfau, arddodiaid, cysyllteiriau ac amseroedd y ferf*. |
| Rwy'n gallu ysgrifennu o'r chwith i'r dde. | Rwy'n gallu defnyddio ffurfiau iaith safonol, gan gynnwys ffurfiau cryno, *e.e. rwy'n gweld/gwelodd e*, a chytundeb rhwng y goddrych a'r ferf, *e.e. roeddwn i, roedd hi*. | Rwy'n gallu defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o eiriau, *e.e. ffurfiau'r presennol, ffurfiau'r gorffennol a ffurfiau negyddol*. |

# Fframweithiau Sgiliau Trawsgwricwlaidd - Llythrennedd

## Llythrennedd: Ysgrifennu

| Cam cynnydd 1 | Cam cynnydd 2 | Cam cynnydd 3 |
|---|---|---|
| **Cysyllteiriau a chystrawen** | | |
| – | Rwy’n gallu defnyddio brawddegau syml ac aml-gymalog gan wneud dewisiadau er mwyn cyrraedd y gynulleidfa a chyflawni’r diben a fwriadwyd, gan gynnwys:<br>• cysyllteiriau i ymhelaethu ar bwynt<br>• cysyllteiriau i ysgrifennu brawddegau cyfansawdd<br>• cysyllteiriau ar gyfer achos a chanlyniad, *e.e. oherwydd, ar ôl*<br>• dechrau brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd<br>• ansoddeiriau ac adferfau. | Rwy'n gallu defnyddio strwythurau brawddeg syml, cyfansawdd a chymhleth er pwyslais ac effaith. |

Ysgrifennwch 3 brawddeg gadarnhaol.



Rhowch y brawddegau i’ch partner.

Gofynnwch iddyn nhw eu troi i’r ffurf negyddol.

# Yr Amser Presennol – gofyn cwestiynau

| Cwestiwn | Ateb cadarnhaol | Ateb negyddol |
|---|---|---|
| Ydw i ...? | Wyt, rwyt ti ..<br>Ydych, rydych chi ... | Nac wyt, dwyt ti ddim ...<br>Nac ydych, dydych chi ddim ... |
| Wyt ti ...? | Ydw, rydw i ... | Nac ydw, dydw i ddim ... |
| Ydy e ...? | Ydy, mae e ... | Nac ydy, dydy e ddim ... |
| Ydy hi ...? | Ydy, mae hi ... | Nac ydy, dydy hi ddim ... |
| Ydy Ceri ...? | Ydy, mae Ceri ... | Nac ydy, dydy ceri ddim ... |
| Ydy'r plant ...? | Ydyn, mae'r plant ... | Nac ydyn, dydy'r plant ddim ... |
| Ydyn ni ...? | Ydyn, rydyn ni ...<br>Ydych, rydych chi ... | Nac ydyn, dydyn ni ddim ...<br>Nac ydych, dydych chi ddim ... |
| Ydych chi ...? | Ydw, rydw i ...<br>Ydyn, rydyn ni ... | Nac ydw, dydw i ddim ...<br>Nac ydyn, dydyn ni ddim ... |
| Ydyn nhw ...? | Ydyn, maen nhw ... | Nac ydyn, dydyn nhw ddim ... |



# Yr Amser Presennol – gofyn cwestiynau



Dyma'r ateb...

**Nac ydy, dydy hi ddim yn bwrw glaw.**

...ond, beth ydy'r cwestiwn?

# Yr Amser Presennol – gofyn cwestiynau



Dyma'r ateb...

**Ydy, mae Cai'n darllen nawr.**

...ond, beth ydy'r cwestiwn?

# Yr Amser Presennol – gofyn cwestiynau



Dyma'r ateb...

**Nac ydych, dydych chi ddim yn nofio heddiw.**

...ond, beth ydy'r cwestiwn?

# Yr Amser Presennol – gofyn cwestiynau

Dyma'r ateb...

...ond, beth ydy'r cwestiwn?

# Yr Amser Presennol + wedi

Dyma yr "amser perffaith" o'r ferf.  Mae'n sôn am rywbeth sydd **wedi** digwydd.

Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy frawddeg ganlynol:

Dw i'n darllen. (yr amser presennol)
Dw i wedi darllen. (yr amser perffaith)

# Beth mae hi wedi (ei) wneud?

Beth mae hi wedi wneud?

Mae hi wedi darllen.

Mae hi wedi gorffen ei gwaith.

Beth mae e wedi **w**neud?

Mae e wedi gwneud gwaith gwych.

Mae e wedi bwyta ei ffrwyth.

Beth mae'r plant wedi wneud?

Mae'r plant wedi gwneud lluniau da.

Mae'r plant wedi tacluso.

Beth maen nhw wedi wneud?

Maen nhw wedi darllen.

Maen nhw wedi bwyta eu snac.

# Wyt ti wedi...?

| | |
|---|---|
| Wyt ti wedi gorffen? | Ydw.<br>Nac ydw. |
| Ydy e wedi darllen? | Ydy.<br>Nac ydy. |
| Ydych chi wedi darllen y stori? | Ydyn.<br>Nac ydyn. |
| Ydyn nhw wedi bwyta eu cinio? | Ydyn.<br>Nac ydyn. |

# Sgiliau llafar dyddiol
**(Cyfnod Dysgu Sylfaen)**

- Amser cofrestru: drilio, drilio, drilio
- Pwysigrwydd holi, holi, ac holi cwestiynau
- Disgwyliadau uchel o ran atebion
- Dangos arfer da – model llafar DA a CHYWIR
- Dysgu caneuon a rhigymau



# Bocs cofrestru…






















Wyt ti'n hoffi ...?





# Munud i feddwl ...

Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?









Grŵp o dri



Ymarfer ar fyrddau gwyn



Drilio



Help llaw


DIOLCH
yn fawr
iawn!
www.draenogdesign.co.uk